**<u>Dadansoddiad o'r holiadur a anfonwyd at rieni yn Nhymor y Gwanwyn 2011</u>**

Yng nghyfarfod cyntaf y flwyddyn academaidd hon, penderfynodd y Llywodraethwyr y dylid cysylltu gyda rhieni i weld beth yw eu barn am yr ysgol. Nid dyma'r tro cyntaf i'r ysgol redeg ymarferiad o'r fath, ac roedd y canlyniadau a gasglwyd y tro diwethaf, yn 2008 yn werthfawr iawn.

Yn fuan yn 2011, aeth y Pwyllgor Cwricwlaidd ati i gynhyrchu holiadur, gan ddefnyddio enghreifftiau o arfer da gan Estyn ac o ffynonnellau eraill er mwyn arwain y gwaith. Penderfynwyd rhannu'r holiadur yn nifer o adrannau, er mwyn delio gyda'n blaenoriaethau mewn ffordd glir a syml. Ein blaenoriaethau oedd:

- Addysgol
- Bugeiliol
- Partneriaeth â rhieni
- Allgyrsiol
- Rhedeg yr ysgol

Ein gobaith oedd casglu gwybodaeth nid yn unig am yr ochr addysgol ond hefyd am rôl ehangach yr ysgol ym mywydau ein teuluoedd ac yn y gymuned yn gyffredinol. Yn ogystal, roedd yn gyfle i ni werthuso elfennau allgyrsiol fel yr Urdd, cyngherddau ayb.

Roeddem yn ymwybodol iawn o'r ffaith mai bychan fyddai'r sampl ddadansoddol gan ein bod yn ysgol fechan, ac felly, rhag bod yn or-ddibynnol ar ystadegau, rhoddwyd cyfle hefyd i rieni gynnig sylwadau i ategu unrhyw bwynt. Byddwn yn dadansoddi'r sylwadau ar wahan.

Roedd croeso i rieni ymateb yn ddi-enw.

Anfonwyd yr holiadur allan ym mis Chwefror 2011, ac mae'r copi wedi'i gynnwys fel atodiad i'r adroddiad hwn. Nid bwriad yr adroddiad hwn yw cynnig barn am yr ymatebion na'r sylwadau, ond yn hytrach ddadansoddi'r holiaduron a ddaeth i law yn ystod yr ymarferiad.

**Ymateb**

Mae 36 o deuluoedd yn anfon eu plant i Ysgol Gymuned Penisarwaun. Cafwyd ymateb i'r holiadur gan 23 o deuluoedd, sy'n ganran o 64%.


**Addysgol**

Roedd chwe chwestiwn yn yr adran hon sy'n canolbwyntio ar gynnydd academaidd y plant yn yr ystafell ddosbarth a sut y mae hynny'n cael ei gyfathrebu i rieni.

Roedd 96% o'r rheini a ymatebodd yn cytuno bod eu plentyn / plant yn gwneud cynnydd addysgol boddhaol yn yr ysgol, gyda 52% ohonynt yn cytuno'n llwyr. Roedd 91% o'r rheini a ymatebodd yn cytuno bod yr ysgol yn annog eu plentyn / plant i wneud eu gorau, gyda 52% yn cytuno'n llwyr. 87% oedd y ganran o'r rheini a ymatebodd a oedd yn cytuno bod yr ysgol yn annog eu plentyn / plant i fod yn ddysgwyr annibynnol, gyda 52% eto yn cytuno'n llwyr.

Roedd 61% o'r rheini a ymatebodd yn cytuno'n llwyr bod yr adroddiadau blynyddol yn rhoi darlun clir o ddatblygiad eu plentyn, gyda'r ffigwr yn cynyddu i 87% wrth gynnwys y rheini sy'n cytuno. Roedd un teulu'n anghytuno gyda'r gosodiad. Unwaith eto, roedd y rheini a ymatebodd yn bositif iawn am y nosweithiau rhieni, gyda 96% yn cytuno'u bod yn eu helpu i ddeall datblygiad eu plentyn.

Roedd y cwestiwn olaf yn yr adran hon yn trafod cadw'n iach, deiet cytbwys a gweithgareddau corfforol. Roedd 96% o'r rheini a ymatebodd yn cytuno gyda'r gosodiad, ond roedd un teulu'n anghytuno, gan godi'u pryderon am fwydlen yr ysgol.





**Bugeiliol**

Roedd saith cwestiwn yn yr adran hon, gan ganolbwyntio ar brofiad personol y plentyn yn yr ysgol, ac agwedd rhieni at werthoedd yr ysgol.

Unwaith eto, roedd yr ymateb yn bositif iawn. Roedd 100% o'r ymatebion yn cytuno bod eu plentyn / plant yn hoffi'r ysgol, gyda 78% yn cytuno'n llwyr. Roedd pawb (100%) hefyd yn cytuno bod yr ysgol yn helpu i ddatblygu'r plant, gyda 52% yn cytuno'n llwyr. Roedd 96% o'r rheini a ymatebodd yn cytuno bod gwerthoedd yr ysgol yn gwneud lles i'r plant, gyda 48% yn cytuno'n llwyr.

Roedd 100% o'r ymatebion yn cytuno bod eu plentyn wedi cael cymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol, gyda 83% yn cytuno'n llwyr. Roedd 96% yn cytuno bod eu plentyn yn teimlo'n saff yn yr ysgol, gyda 78% yn cytuno'n llwyr. 91% oedd y canran o'r rheini a oedd yn cytuno bod yr ysgol yn hyrwyddo cyfle cyfartal i bawb, ac roedd pawb yn gytun bod ymddygiad y disgyblion o safon uchel, gyda 48% yn cytuno'n llwyr.





**Partneriaeth â rhieni**

Roedd yr adran hon o'r holiadur yn delio gyda'r berthynas rhwng y cartref a'r ysgol yng nghyd-destun gwaith academaidd, gan edrych ar yr wybodaeth mae'r teulu'n ei dderbyn am gynnydd y plentyn. Unwaith eto, roedd yr ymatebion yn bositif, ond bydd eisiau i trafod un neu ddau o'r ymatebion ymhellach, yn enwedig yng nghyd-destun addasrwydd gwaith cartref a'r wybodaeth sydd gan rieni am yr hyn mae'u plant yn ei ddysgu o dymor i dymor.

Roedd 87% o'r rheini a ymatebodd yn cytuno bod gwaith cartref y plentyn yn addas, gyda 30% yn cytuno'n llwyr. Roedd dau deulu wedi nodi nad oeddynt yn credu bod y gwaith yn addas, ac roedd un teulu arall wedi awgrymu y dylid gosod gwaith cartref mathemateg un wythnos ac iaith yr wythnos ganlynol gan eu bod yn teimlo bod y ddau'n ormod mewn un penwythnos.

Roedd pawb  cytuno bod yr ysgol yn annog y plentyn i wneud ei orau, gyda 43% yn cytuno'n llwyr, ac roedd 100% hefyd yn nodi'u bod yn fodlon sicrhau bod eu plant yn cwblhau'u gwaith cartref, gyda 78% yn cytuno'n llwyr gyda'r gosodiad.  Er bod 91% yn cytuno'u bod yn gwybod beth sy'n cael ei ddysgu o dymor i dymor, roedd dau deulu'n anghytuno gyda'r gosodiad, er bod 43% yn cytuno'n llwyr.


Cytunodd pawb eu bod yn fodlon cefnogi addysg eu plentyn drwy ddarllen, cefnogi gweithgareddau cymunedol a chefnogi gweithgareddau ychwanegol addysgol, fel tripiau a gwaith maes, ac roedd 91% yn cytuno bod y cymorth mae plant yn ei dderbyn os oes ganddyn nhw anghenion unigol penodol yn dderbyniol.




**Allgyrsiol**

Dim ond dau brif gwestiwn oedd yn yr adran hon, gyda'r cyntaf yn gofyn a yw'r ysgol yn cyfrannu at fywyd cymdeithasol a diwylliedig y fro.  Roedd pawb yn cytuno bod hyn yn wir, gyda 78% yn cytuno'n gryf.  Roedd yr ail gwestiwn yn ymwneud gyda rhai o'r gweithgareddau all-gyrsiol a gynigir i'r plant yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol.  Nid yw pob gweithgaredd ar gael i bob oedran, felly mae nifer o deuluoedd wedi nodi 'Dim sylwadau' fel ateb i'r cwestiwn am yr Urdd.  Roedd pob teulu ond un yn cytuno bod eu plant yn cael profiad gwerthfawr wrth gymryd rhan yng ngweithgareddau'r Urdd, gyda 56% yn cytuno'n llwyr.

Roedd 96% o'r rheini a ymatebodd yn credu bod eu plant yn cael profiad gwerthfawr wrth gymryd rhan yng nghyngherddau'r ysgol, gydag un teulu'n nodi 'Dim sylwadau' am resymau personol.  Roedd yr ymateb i'r gwaith maes a gynigir gan yr ysgol hefyd yn gadarnhaol iawn, gydag 87% yn cytuno ei fod yn werthfawr, ac roedd 91% o'r rheini a ymatebodd yn cytuno bod y chwaraeon a gynigir gan yr ysgol yn rhoi profiad gwerthfawr i'w plant.  Roedd 96% hefyd yn cytuno bod y tripiau addysgol a gynigir yn werthfawr, gydag un teulu'n anghytuno gyda'r gosodiad.




**Rhedeg yr Ysgol**

Roedd yr adran hon yn ymwneud gyda'r ffordd y mae'r ysgol yn cael ei rhedeg o ddydd i ddydd ac am sut mae'r Llywodraethwyr yn cyfathrebu gyda theuluoedd. Yn ogystal, gofynnwyd a fyddai rhieni'n hoffi derbyn gwybodaeth drwy ebost, ond nid ydym wedi cynnwys yr ymatebion yn y dadansoddiad hwn gan mai cwestiwn cwbl ymarferol ydoedd.

Roedd 96% o'r rheini a ymatebodd yn cytuno bod yr ysgol yn croesawu cysylltiad gan rieni ym mhob ffordd, gyda 61% yn cytuno'n llwyr. Roedd 96% hefyd yn cytuno mai'r cylchlythyr yw'r ffordd orau i gysylltu gyda rhieni gan ei fod yn ddefnyddiol. Dim ond un teulu a oedd yn anghytuno.

Roedd 65% yn cytuno bod enwau a dyletswyddau'r Llywodraethwyr yn glir i bawb, ond roedd 22% yn anghytuno gyda'r gosodiad, gyda'r lleill heb gynnig sylwadau. Roedd tri theulu hefyd heb gynnig sylwadau am adroddiad blynyddol y Llywodraethwyr, ac roedd dau deulu'n anghytuno gyda'r gosodiad ei fod yn ddefnyddiol ac yn rhoi darlun clir o'r gwaith yn ystod y flwyddyn. Roedd y gweddill (78%) yn cytuno gyda'r gosodiad.

Y gosodiad olaf ar yr holiadur oedd un am ethos ac awyrgylch yr ysgol ac roedd pawb a ymatebodd yn cytuno bod yr ysgol yn gyfeillgar a'i bod yn rhedeg yn dda.

